# Agenda - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a: |
| **Fideogynadledda drwy Zoom** | **P Gareth Williams** |
| Dyddiad: Dydd Llun, 27 Mawrth 2023 | Clerc y Pwyllgor |
| Amser: 13.00 | 0300 200 6565 |
| | SeneddDCC@senedd.cymru |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(13.00)

## 2 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

(13.00 - 13.05) (Tudalen 1)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-11-23 – Papur 1 – Adroddiad drafft

**Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Gwneud Negyddol**

**2.1 SL(6)337 - Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) (Diwygio) 2023**

## 3 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

(13.05 - 13.10)

**Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Gwneud Negyddol**

**3.1 SL(6)332 - Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2023**

(Tudalennau 2 - 6)

Gorchymyn

Senedd Cymru
Welsh Parliament

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-11-23 – Papur 2 – Adroddiad drafft

LJC(6)-11-23 – Papur 3 – Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, 7 Mawrth 2023

**3.2 SL(5)335 – Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Cludo) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2023**

(Tudalennau 7 – 8)

Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-11-23 – Papur 4 – Adroddiad drafft

**3.3 SL(6)336 – Rheoliadau'r Weithdrefn Dyletswydd Gonestrwydd (Cymru) 2023**

(Tudalennau 9 – 10)

Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-11-23 – Papur 5 – Adroddiad drafft

**3.4 SL(6)338 – Rheoliadau Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 (Diwygiadau a Dirymiadau Canlyniadol, Atodol a Deilliadol) (Is-ddeddfwriaeth) 2023**

(Tudalennau 11 – 12)

Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-11-23 – Papur 6 – Adroddiad drafft

**3.5 SL(6)339 – Rheoliadau Gofal a Chymorth (Asesiadau Poblogaeth) (Cymru) (Diwygio) 2023**

(Tudalennau 13 – 14)

Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-11-23 – Papur 7 – Adroddiad drafft

**Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Cadarnhaol**

**3.6 SL(6)340 – Gorchymyn Contractau Adeiladu (Eithrio) (Cymru) 2023**

(Tudalennau 15 - 17)

[Gorchymyn]

[Memorandwm Esboniadol]

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-11-23 – Papur 8 – Adroddiad drafft

## 4 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 – trafodwyd eisoes

(13.10 - 13.15)

**4.1 SL(6)330 – Gorchymyn Datblygu Arbennig Cynllunio Gwlad a Thref (Safle Rheoli ar y Ffin Gogledd Cymru) (Ymadael â'r UE) 2023**

(Tudalennau 18 - 20)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-11-23 – Papur 9 – Adroddiad

LJC(6)-11-23 – Papur 10 – Ymateb Llywodraeth Cymru

## 5 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol

(13.15 - 13.20)

**5.1 Datganiad Ysgrifenedig a gohebiaeth gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd: Gr?p Rhyngweinidogol ar gyfer yr Amgylchedd, Bwyd a Ffeiriau Gwledig**

(Tudalennau 21 - 25)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-11-23 – Papur 11 – Datganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, 23 Mawrth 2023

LJC(6)-11-23 – Papur 12 – Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, 23 Mawrth 2023

## 6 Papurau i'w nodi

(13.20 - 13.25)

### 6.1 Datganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog Newid Hinsawdd: Y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio

(Tudalennau 26 - 27)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-11-23 - Papur 13 - Datganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 21 Mawrth 2023

### 6.2 Gohebiaeth gan y Prif Weinidog at y Llywydd: Bil Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru)

(Tudalennau 28 - 29)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-11-23 - Papur 14 - Llythyr gan y Prif Weinidog at y Llywydd, 22 Mawrth 2023

### 6.3 Gohebiaeth gan y Pwyllgor Busnes: Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio)

(Tudalennau 30 - 31)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-11-23 - Papur 15 - Llythyr gan y Pwyllgor Busnes, 22 Mawrth 2023

### 6.4 Gohebiaeth gan y Gweinidog Newid Hinsawdd: Rheoliadau Gwastraff Pecynwaith (Casglu ac Adrodd am Ddata) (Cymru) 2023

(Tudalennau 32 - 44)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-11-23 - Papur 16 - Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 23 Mawrth 2023

LJC(6)-11-23 - Papur 17 - Llythyr at y Gweinidog Newid Hinsawdd, 14 Mawrth 2023

## 7 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(13.25)

**8 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 6) ar y Bil Tai Cymdeithasol (Rheoleiddio): Adroddiad drafft**

(13.25 - 13.35) (Tudalennau 45 - 50)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-11-23 - Papur 18 - Adroddiad drafft [Saesneg yn unig]

**9 Fframweithiau Cyffredin: Materion o bwys**

(13.35 - 13.50) (Tudalennau 51 - 61)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-11-23 - Papur 19 - Nodyn briffio [Saesneg yn unig]

**10 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Streiciau (Lefelau Gwasanaeth Lleiaf): Adroddiad drafft**

(13.50 - 13.55) (Tudalennau 62 - 70)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-11-23 - Papur 20 - Adroddiad drafft [Saesneg yn unig]

**11 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3) ar y Bil Troseddau Economaidd a Thryloywder Corfforaethol**

(13.55 - 14.00) (I ddilyn)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-11-23 - Papur 21 - Nodyn cyngor cyfreithiol [Saesneg yn unig]

**12 Cyfiawnder yng Nghymru: Gohebiaeth ynghylch tystiolaeth lafar a ddarparwyd gan yr Arglwydd Bellamy KC, yr Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Gyfiawnder**

(14.00 - 14.10) (I ddilyn)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-11-23 - Papur 22 - Llythyr oddi wrth yr Arglwydd Bellamy KC, 14 Mawrth 2023 [Saesneg yn unig]

LJC(6)-11-23 - Papur 23 - Tystiolaeth a gyflwynwyd gan Race Council

Cymru, 14 Mawrth 2023 [Saesneg yn unig]

LJC(6)-11-23 – Papur 24 – Tystiolaeth a gyflwynwyd gan yr Athro Emyr Lewis, Prifysgol Aberystwyth, 17 Chwefror 2023

LJC(6)-11-23 – Papur 25 – Ymateb drafft i'r Arglwydd Bellamy KC [Saesneg yn unig]

## 13 Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru): Adroddiad drafft

(14.10 – 14.40) (I ddilyn)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-11-23 – Papur 26 – Adroddiad drafft [Saesneg yn unig]

LJC(6)-11-23 – Papur 27 – Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol at y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, 17 Mawrth 2023 [Saesneg yn unig]

LJC(6)-11-23 – Papur 28 – Llythyr gan y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 9 Chwefror 2023

# Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir
# 27 Mawrth 2023

## SL(6)337 – Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) (Diwygio) 2023

### Gweithdrefn: Gwneud Negyddol

Mae Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) 2011 ("**Rheoliadau 2011**") yn gwneud trefniadau ar gyfer hysbysu, ystyried ac ymateb i bryderon a hysbysir gan bersonau mewn perthynas â gwasanaethau a ddarperir gan neu o dan drefniadau gyda'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud nifer o ddiwygiadau technegol i Reoliadau 2011, gan gynnwys:

1. estyn cymhwysiad Rheoliadau 2011 i Awdurdodau Iechyd Arbennig yng Nghymru; ac
2. mewn amgylchiadau pan fo Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ("**yr Ombwdsmon**") wedi argymell bod y corff GIG Cymru perthnasol yn cynnig ffurf o iawn o dan Ran 6 o Reoliadau 2011, sy'n caniatáu i'r corff hwnnw gynnal ymchwiliad pellach i benderfynu a oes atebolrwydd cymwys yn bodoli ac i gynnig ffurf o iawn yn unol â'r Rheoliadau hynny ac argymhellion yr Ombwdsmon.

Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Ebrill 2023.

**Rhiant-Ddeddf:** Fesur Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG (Cymru) 2008
**Fe'u gwnaed ar:** 07 Mawrth 2023
**Fe'u gosodwyd ar:** 09 Mawrth 2023
**Yn dod i rym ar:** 01 Ebrill 2023

# SL(6)332– Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2023

## Cefndir a diben

Yn ddarostyngedig i rai newidiadau ac un ddarpariaeth drosiannol, mae Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2023 ("y Gorchymyn") yn dirymu ac yn disodli Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Rhif 2) (Cymru) 2022.

Mae Rhan 2 o'r Gorchymyn yn darparu bod gweithwyr amaethyddol i gael eu cyflogi yn ddarostyngedig i'r telerau a'r amodau sydd wedi eu nodi yn Rhannau 2 i 5 o'r Gorchymyn ac yn pennu'r graddau a'r categorïau gwahanol o weithiwr amaethyddol.

Mae Rhan 3 yn gwneud darpariaeth ynghylch y cyfraddau tâl isaf y mae rhaid eu talu i weithwyr amaethyddol. Mae darpariaeth yn cael ei gwneud ar gyfer lwfans gwrthbwyso llety a all gael ei dynnu oddi ar dâl gweithiwr amaethyddol. Mae darpariaeth yn cael ei gwneud hefyd ar gyfer lwfans cŵn, lwfans ar alwad, lwfans gwaith nos a grantiau geni a mabwysiadu nad ydynt yn ffurfio rhan o dâl gweithiwr amaethyddol.

Mae Rhan 4 yn darparu bod gan weithiwr amaethyddol hawl i gael tâl salwch amaethyddol o dan yr amgylchiadau sydd wedi eu pennu. Mae darpariaeth yn cael ei gwneud ynghylch cyfrifo faint o dâl salwch amaethyddol y mae gan weithiwr amaethyddol hawl i'w gael. Mae taliad tâl salwch statudol i gyfrif tuag at hawl gweithiwr amaethyddol i gael tâl salwch amaethyddol.

Mae Rhan 5 yn gwneud darpariaeth ynghylch hawl gweithiwr amaethyddol i gael amser i ffwrdd. Mae darpariaeth yn cael ei gwneud ynghylch hawl gweithiwr amaethyddol i gael seibiannau gorffwys, gorffwys dyddiol a chyfnod gorffwys wythnosol. Mae darpariaeth yn cael ei gwneud hefyd sy'n pennu blwyddyn gwyliau blynyddol y gweithiwr amaethyddol ac ynghylch hawl y gweithiwr amaethyddol i gael gwyliau blynyddol a thâl gwyliau ac ynghylch taliad yn lle gwyliau blynyddol. Mae darpariaeth yn cael ei gwneud yn erthyglau 41 i 43 ynghylch hawl gweithiwr amaethyddol i gael absenoldeb â thâl oherwydd profedigaeth.

Mae Rhan 6 yn cynnwys dirymiad a darpariaeth drosiannol.

## Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Gorchymyn gan Weinidogion Cymru cyn iddo gael ei osod gerbron y Senedd. Caiff y Senedd ddirymu'r Gorchymyn o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'i gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y 2 pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

1. **Rheol Sefydlog 21.2 (vi) – ei bod yn ymddangos bod y gwaith drafftio yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Nodir yn Erthygl 29(3):

> *Caniateir torri ar draws yr isafswm cyfnod gorffwys y darperir ar ei gyfer ym mharagraff (8) yn achos gweithgareddau sy'n ymwneud â chyfnodau gwaith sydd wedi eu rhannu dros y diwrnod neu sy'n para am gyfnod byr.*

Fodd bynnag, nid oes paragraff (8) yn erthygl 29. Mae paragraffau eraill yn cyfeirio at baragraff (3), felly mae'r groesgyfeiriad gwallus hwn yn creu dryswch pellach.

2. **Rheol Sefydlog 21.2 (vi) – ei bod yn ymddangos bod y gwaith drafftio yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Mae Erthygl 41(2) o'r Gorchymyn yn Saesneg yn cyflwyno'r personau yng Nghategori A at ddibenion absenoldeb oherwydd profedigaeth. Mae is-baragraff (a) yn darllen "*a child*". Mae'r Gorchymyn yn Cymraeg yn cynnwys "yw plentyn" yng nghorff paragraff (2) ac o ganlyniad nid oes is-baragraff (a). Er ei bod yn ymddangos bod hwn yn fater fformatio, yr effaith yw bod gan y Gorchymyn yn Saesneg erthygl 41(2)(a) ac nid oes un gan y Gorchymyn yn Gymraeg.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y 3 pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn: Mae'r pwyntiau hyn yn ymwneud â rhai o'r newidiadau a gynigiwyd gan Banel Cynghori Amaethyddol Cymru ("y Panel") i Orchymyn Cyflogau Amaethyddol (Rhif 2) (Cymru) 2022 sydd wedi eu cynnwys yn y Gorchymyn hwn.

3. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae Erthygl 2 yn diffinio termau a ddefnyddir yn y Gorchymyn. Rydym yn nodi bod paragraff 23 ar dudalen 7 o'r Memorandwm Esboniadol yn datgan fel a ganlyn:

> *Mae'r Panel yn cynnig bod y term 'contract gwasanaeth' yn cael ei ddiwygio i ddileu'r gair 'gwasanaeth.' Y rhesymeg y tu ôl i'r diwygiad hwnyw sicrhau y cynhwysir gweithwyr asiantaeth a gweithwyr sy'n cael eu cyflogi gan feistri gangiau nad ydynt o bosibl yn cael eu cyflogi o dan gontract gwasanaeth yn uniongyrchol gyda'r cyflogwr, ond o dan ryw fath arall o gontract am wasanaethau.*

Yn unol â'r gwelliant hwn, nodwn fod y diffiniad "cyflogaeth" wedi'i ddiwygio, fel bod gweithwyr sy'n cael eu cyflogi gan feistri gangiau ac asiantaethau cyflogaeth yn cael eu cynnwys yn benodol.

**4. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae Erthygl 14 yn nodi darpariaethau i ddiogelu cyflog gweithwyr amaethyddol a gyflogwyd cyn 22 Ebrill 2022 a allai fod wedi dioddef gostyngiad yn eu cyfradd fesul awr o ganlyniad i gael eu cymhathu i radd is yn sgil newidiadau yn y strwythur graddio.

Cynigiodd y Panel ddrafftio amgen ar gyfer y Gorchymyn, gan ei fod o'r farn y gellid dehongli'r darpariaethau diogelu cyflogau yn y Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Rhif 2) (Cymru) 2022 fel un sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr rewi cyflog gweithiwyr amaethyddol ar eu cyfradd cyflog ar 22 Ebrill 2022 nes bod y gyfradd isafswm awr yn cyrraedd neu'n mynd yn uwch na'r gyfradd gyflog honno.

Mae'r geiriad arfaethedig yn y Memorandwm Esboniadol, ar waelod tudalen 8, yn wahanol i'r geiriad sy'n ymddangos yn y Gorchymyn. Gofynnwn i Lywodraeth Cymru egluro'r rheswm dros y gwahaniaeth hwn.

**5. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae Erthygl 15 yn gwneud darpariaeth ar gyfer lwfans gwrthbwyso llety a all gael ei dynnu oddi ar dâl gweithiwr amaethyddol. Ni chaiff y cyflogwr ddidynnu mwy na £1.65 yr wythnos o isafswm cyflog y gweithiwr amaethyddol lle darperir tŷ i weithiwr, ac ni all y cyflogwr ddidynnu mwy na £5.29 y dydd o isafswm cyflog y gweithiwr amaethyddol lle darperir llety arall i'r gweithiwr. Rydym yn nodi bod paragraff 23 ar dudalen 7 o'r Memorandwm Esboniadol yn datgan fel a ganlyn:

> *Nid yw'r Panel wedi cynnig cynnydd i'r cyfraddau hyn ers ei sefydlu. Ar ôl ystyried yr amodau economaidd yn y sector ar hyn o bryd, mae'r Panel wedi cynnig y dylai'r cyfraddau hyn gynyddu yn unol â chynnydd canrannol y Cyflog Byw Cenedlaethol (NLW), gan ddod â'r cyfraddau gwrthbwyso llety yn agosach at y didyniad a ganiateir o dan y ddeddfwriaeth Isafswm Cyflog Cenedlaethol*

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb Llywodraeth Cymru mewn perthynas â phwyntiau 1, 2 a 4 uchod.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**22 Mawrth 2023**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2023** |
| **DYDDIAD** | **07 Mawrth 2023** |
| **GAN** | **Lesley Griffiths AS, Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd** |

Rwyf wedi llofnodi Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2023, sy'n gosod isafswm cyflog yr awr i bob gweithiwr ym maes amaeth, garddwriaeth ac amaeth-goedwigaeth yng Nghymru, yn ogystal â'u hamodau cyflogaeth gofynnol.

Mae'r cyfraddau wedi'u seilio ar gyngor Panel Cynghori Amaethyddol annibynnol Cymru. Bydd y Gorchymyn newydd yn dod i rym ar 1 Ebrill 2023 ac yn:

- cynyddu'r cyfraddau a'r lwfansau isafswm cyflog;
- cynnwys gweithwyr asiantaethau a gweithwyr sy'n cael eu cyflogi gan feistri criwiau nad oes ganddynt gontract o wasanaeth yn uniongyrchol gyda'r cyflogwr;
- diwygio'r geiriad ynghylch cyfnodau gwyliau blynyddol; ac yn
- diwygio'r broses o gyfrifo tâl gwyliau i weithwyr sydd ag oriau amrywiol.

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ymrwymo i amcanion Deddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014. Mae gan y darn pwysig hwn o ddeddfwriaeth gyswllt uniongyrchol â brwydro yn erbyn tlodi yng nghefn gwlad Cymru a chefnogi amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae sicrhau bod gweithwyr amaethyddol yn derbyn cyflog teg, sy'n cydnabod y rôl bwysig maent yn ei chwarae yn sector amaethyddol Cymru wrth gyfrannu at yr economi a'r amgylchedd wledig, yn hollbwysig ac mae'n nod allweddol gan y Llywodraeth hon. Mae'r Gorchymyn hwn yn cryfhau fy ymrwymiad i gefnogi hyfywedd y sector amaethyddol yng Nghymru.

Mae mwy o [wybodaeth a chanllawiau] ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

Rwy'n ddiolchgar i'r Panel a'i Gadeirydd, Dr Nerys Llewelyn Jones, am eu hymdrechion sylweddol wrth gyflwyno'r Gorchymyn Cyflogau newydd.

# SL(6)335 – Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Cludo) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2023

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth at ddibenion deddfwriaeth yr UE a ddargedwir i ddod â'r rheolaethau swyddogol sy'n ymwneud â lles anifeiliaid wrth eu cludo o dan yr un gyfundrefn â rheolaethau swyddogol eraill ar gyfer iechyd a lles anifeiliaid. Bydd darpariaethau penodol sy'n ymwneud â rheolaethau swyddogol ar gyfer lles anifeiliaid wrth eu cludo a gafodd eu gohirio'n wreiddiol yn cael eu cychwyn gan reoliadau ar ddyddiad sydd i'w bennu. Mae'r Rheoliadau hyn yn nodi mai dyddiad cychwyn y darpariaethau hynny sy'n weddill yw 6 Ebrill 2023.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn diwygio deddfwriaeth yr UE a ddargedwir i egluro rhwymedigaethau cludwyr a cheidwaid anifeiliaid, yn rhoi mwy o gyfrifoldeb ar drefnwyr teithiau mewn perthynas â pharatoi a chwblhau cofnodion teithiau, ac yn egluro'r broses ar gyfer cymeradwyo cofnodion teithiau.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn gwneud diwygiadau canlyniadol i Orchymyn Lles Anifeiliaid (Cludo) (Cymru) 2007.

## Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Yn ôl y Memorandwm Esboniadol:

> *"Bydd y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cofnod taith i'r awdurdod cymwys yn cael ei egluro. Bydd yn ofynnol i'r trefnydd sicrhau bod copi o gofnod y daith, wedi'i gwblhau'n gywir, yn cael ei ddychwelyd i APHA* [yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion] *o fewn* **30 diwrnod** *i'r daith gael ei chwblhau…* [pwyslais wedi'i ychwanegu].

Fodd bynnag, mae paragraff 13(b) o'r Atodiad 2 newydd i Reoliad (EC) Rhif 1/2005, fel y'i hamnewidir gan reoliad 2, a'r Atodlen i'r Rheoliadau hyn, yn nodi bod yn rhaid i'r trefnydd sicrhau bod cofnod y daith, wedi'i gwblhau, yn cael ei ddychwelyd ddim hwyrach nag **un mis** i'r daith gael ei chwblhau. Mae Atodlen 1 i Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 yn diffinio "*Mis*" fel mis calendr.

Byddem yn ddiolchgar pe gallai Llywodraeth Cymru egluro'r amserlen oddi mewn iddi y mae'n rhaid i drefnwyr teithiau sicrhau bod cofnod y daith, wedi'i gwblhau, yn cael ei gyflwyno i'r awdurdod cymwys ar ôl cwblhau'r daith.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

**<u>Pwynt Craffu Teilyngdod 1:</u>**
Mae Llywodraeth Cymru yn diolch i'r Pwyllgor am dynnu sylw at yr anghywirdeb ac wedi cywiro'r Memorandwm Esboniadol yn unol â hynny.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**16 Mawrth 2023**

# SL(6)336 – Rheoliadau'r Weithdrefn Dyletswydd Gonestrwydd (Cymru) 2023

## Cefndir a Diben

Mae Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 yn cyflwyno dyletswydd gonestrwydd sefydliadol ar gyrff GIG (gan gynnwys gofal sylfaenol) yng Nghymru lle:

(i) bod person y mae'r corff GIG yn darparu neu wedi darparu gofal iechyd iddo wedi dioddef canlyniad andwyol; a
(ii) bod darparu'r gofal iechyd yn ffactor, neu y gallai fod wedi bod yn ffactor, a achosodd i'r person ddioddef y canlyniad hwnnw.

Caiff y Rheoliadau eu gwneud o dan y Ddeddf honno ac maent yn nodi gweithdrefn ("y weithdrefn gonestrwydd") sydd i'w dilyn gan gorff GIG y mae'r ddyletswydd gonestrwydd wedi dod yn effeithiol mewn perthynas ag ef.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn gwneud diwygiadau canlyniadol i Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) 2011 i sicrhau bod y weithdrefn gonestrwydd yn gweithio ar y cyd â'r trefniadau presennol o dan y Rheoliadau hynny.

## Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y cawsant eu gosod gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae rheoliad 4(3)(b) yn cyfeirio at adrannau 3(2) a (3) o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020. Fodd bynnag, nid yw adran 3 o'r Ddeddf honno wedi'i chychwyn eto.

Daeth Erthygl 2 o Orchymyn Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 (Cychwyn Rhif 3) 2023 ag adran 4 o'r Ddeddf i rym o 7 Mawrth 2023 (i'r graddau sy'n angenrheidiol at ddiben gwneud rheoliadau), ond ni chychwynnwyd adran 3 bryd hynny. A all Llywodraeth Cymru nodi pryd y gellir disgwyl gorchymyn cychwyn mewn perthynas ag adran 3?

## Ymateb Llywodraeth Cymru

**<u>Pwynt Craffu ar Rinweddau 1:</u>**
Bydd adran 3 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 yn cael ei dwyn i rym ar 1 Ebrill 2023 i gyd-fynd â'r dyddiad y daw Rheoliadau'r Weithdrefn Dyletswydd Gonestrwydd (Cymru) 2023 i rym.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**15 Mawrth 2023**

# SL(6)338 – Rheoliadau Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 (Diwygiadau a Dirymiadau Canlyniadol, Atodol a Deilliadol) (Is-ddeddfwriaeth) 2023

## Cefndir a Diben

Mae Rheoliadau Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 (Diwygiadau a Dirymiadau Canlyniadol, Ategol a Deilliadol) (Is-ddeddfwriaeth) 2023 ("y Rheoliadau") wedi eu gwneud o dan adran 28 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 ("Deddf 2020").

Sefydlodd Deddf 2020 Gorff Llais y Dinesydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Cymru ("y Corff"). Amcan cyffredinol y Corff, wrth arfer ei swyddogaethau, yw cynrychioli buddiannau'r cyhoedd mewn cysylltiad ag iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Mae Deddf 2020 hefyd yn darparu ar gyfer dileu'r Cynghorau Iechyd Cymuned.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau canlyniadol, atodol a deilliadol i is-ddeddfwriaeth ac yn darparu ar gyfer dirymu is-ddeddfwriaeth er mwyn adlewyrchu bod y Corff wedi ei sefydlu a bod ei swyddogaethau o sylwedd wedi eu cychwyn, a bod y Cynghorau Iechyd Cymuned wedi eu dileu fel y darperir ar eu cyfer yn Neddf 2020.

Daw'r rhan fwyaf o'r darpariaethau yn y Rheoliadau hyn i rym ar 1 Ebrill 2023, er mwyn cyd-fynd â'r dyddiad pan ddaw Corff Llais y Dinesydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Cymru yn gwbl weithredol, a phan gaiff y Cynghorau Iechyd Cymunedeu dileu. Bydd gweddill y darpariaethau yn y Rheoliadau hyn yn dod i rym ar 1 Gorffennaf 2023, sef y dyddiad pan fydd rhaid i gyrff perthnasol roi sylw i'r cod ymarfer ar fynediad i fangreoedd a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru o dan adran 19 o Ddeddf 2020. Mae'r cod ymarfer ar fynediad yn ymwneud ag (a) ceisiadau a gyflwynir gan Gorff Llais y Dinesydd am fynediad i fangre at ddiben ceisio barn unigolion mewn cysylltiad â gwasanaethau iechyd neu wasanaethau cymdeithasol, a (b) pan fo cytundeb wedi ei wneud i roi mynediad i'r fangre honno, ymgysylltu ag unigolion yn y fangre honno at y diben hwnnw.

## Y weithdrefn

Negyddol

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodir y ddau bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodwn yr esboniad a ganlyn o dan bennawd 5 o'r Memorandwm Esboniadol ynghylch pam na chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad ffurfiol ar y Rheoliadau:

> *"Ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad ar y Rheoliadau hyn yn benodol, sy'n gwneud darpariaethau technegol yn bennaf er mwyn sicrhau bod modd bodloni amcanion Deddf 2020 yn gywir a sicrhau ymhellach fod Deddf 2020 yn cyd-fynd â deddfwriaeth bresennol. Mae ymgynghoriad eisoes wedi cael ei gynnal ar y polisïau sydd wrth wraidd Deddf 2020, yn ogystal ag ar y cod ymarfer arfaethedig ar fynediad i fangreoedd (sy'n cyfeirio'n benodol at ddarparwyr gofal sylfaenol yn bod yn ddarostyngedig iddo) ac felly ni ystyriwyd ei bod yn angenrheidiol nac yn gymesur gynnal ymgyngoriadau pellach."*

2. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodwn yr esboniad a ganlyn o dan bennawd 6 o'r Memorandwm Esboniadol ynghylch pam na luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol mewn cysylltiad â'r Rheoliadau:

> *"Ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol mewn cysylltiad â'r Rheoliadau hyn, am eu bod yn gwneud diwygiadau canlyniadol a thechnegol i ddeddfwriaeth sydd eisoes yn bodoli, ac nad ydynt yn gosod nac yn lleihau costau i fusnesau, elusennau na chyrff gwirfoddol na'r sector cyhoeddus. Mae hyn yn unol â'r polisi a nodir yng Nghod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gyfer cynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas ag is-ddeddfwriaeth."*

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**21 Mawrth 2023**

# SL(6)339 – Rheoliadau Gofal a Chymorth (Asesiadau Poblogaeth) (Cymru) (Diwygio) 2023

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Gofal a Chymorth (Asesiadau Poblogaeth) (Cymru) 2015 ("y prif Reoliadau"), sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer cynnal asesiadau poblogaeth

Mae rheoliad 4 o'r prif Reoliadau yn darparu bod rhaid i gyrff cyfrifol, wrth gynnal asesiad poblogaeth, ymgysylltu â sefydliadau sector preifat penodol neu sefydliadau trydydd sector penodol.

Mae rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio rheoliad 4 o'r prif Reoliadau fel bod rhaid i gyrff cyfrifol ymgysylltu hefyd ag unrhyw gorff cyhoeddus y maent yn credu ei fod yn ymwneud â darparu gofal a chymorth neu wasanaethau ataliol, neu fod ganddo fuddiant mewn darparu gofal a chymorth neu wasanaethau ataliol, i'r boblogaeth leol. Mae rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn hefyd yn mewnosod diffiniadau perthnasol at y dibenion hyn.

## Gweithdrefn

Negyddol

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y cawsant eu gosod gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Rydym yn nodi bod y Memorandwm Esboniadol yn cyfeirio at Ran 4 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 ("Deddf 2020").

Mae adran 12 o Ddeddf 2020 yn sefydlu Corff Llais y Dinesydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Cymru ("y Corff"). Daeth Erthygl 3 o Orchymyn Deddf Iechyd a Gofal

Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 (Cychwyn Rhif 1) 2022 ag adran 12 o Ddeddf 2020 (ac Atodlen 1 (Corff Llais y Dinesydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Cymru), ac eithrio paragraffau 6, 7, 8 a 22 o'r Atodlen honno, i rym ar 1 Ebrill 2022.

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn datgan:

> "***Disgwylir*** *i'r Corff fod yn gweithredu'n llawn o 1 Ebrill 2023 ymlaen".*

Fodd bynnag, nid yw rhai darpariaethau yn Rhan 4 o Ddeddf 2020 wedi dod i rym eto.

A all Llywodraeth Cymru nodi pryd y gellir disgwyl gorchymyn cychwyn mewn perthynas â gweddill y darpariaethau yn Rhan 4 o Ddeddf 2020?

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Rydym yn nodi na chynhaliwyd ymgynghoriad ar y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

> *"Ni chynhaliwyd ymgynghoriad yn benodol ar y Rheoliadau hyn, sydd, yn bennaf, yn gwneud mân ddiwygiad i'r prif Reoliadau i sicrhau y gellir cyflawni amcanion Deddf 2020 yn briodol. Cynhaliwyd ymgynghoriad blaenorol ar y polisi perthnasol yn Neddf 2020."*

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**20 Mawrth 2023**

# SL(6)340 – Gorchymyn Contractau Adeiladu (Eithrio) (Cymru) 2023

## Cefndir a diben

Mae Rhan 2 o Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996 (**y Ddeddf**) yn gwneud darpariaeth o ran telerau contractau adeiladu. Mae adran 106A(2) o'r Ddeddf yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ddatgymhwyso unrhyw un neu bob un o'r darpariaethau yn Rhan 2 mewn perthynas ag unrhyw ddisgrifiad o gontractau adeiladu sy'n ymwneud â chyflawni gweithrediadau adeiladu penodedig yng Nghymru.

Mae'r Gorchymyn hwn yn datgymhwyso Rhan 2 o'r Ddeddf mewn perthynas â chontractau prosiect seilwaith penodol yng Nghymru pan fo parti i'r contract yn ymgymerwr carthffosiaeth neu ddŵr, yn ddarostyngedig i ofynion gan gynnwys:

- rhaid bod y contract yn ymwneud â phrosiect a ddynodwyd gan yr Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr fel prosiect 'caffael uniongyrchol i gwsmeriaid' (**DPC**) yn unol ag amodau penodiad yr ymgymerwr perthnasol;

- rhaid i'r contract gynnwys gwneud taliadau rheolaidd drwy gyfeirio at gostau gwirioneddol yr eir iddynt ac a ddaw'n ddyledus ar ôl i un neu ragor o rannau o'r gweithrediadau adeiladu ddod i ben ac y gall gyflawni gwasanaeth carthffosiaeth neu ddŵr.

Mae'r Gorchymyn hefyd yn datgymhwyso adran 110(1A) o'r Ddeddf mewn perthynas â'r math o gontract y cyfeirir ato uchod, pan fo parti i'r contract hwnnw yn ymrwymo i is-gontract. Mae adran 110(1A) o'r Ddeddf yn darparu nad yw'r gofyniad bod contractau yn darparu mecanwaith digonol ar gyfer sefydlu pa daliadau sy'n dod yn ddyledus a phryd o dan y contract yn cael ei fodloni os yw taliad yn amodol ar gyflawni rhwymedigaethau o dan gontract arall.

Mae paragraff 4.4 o'r Memorandwm Esboniadol yn nodi mai dim ond un prosiect y gallai'r Gorchymyn hwn fod yn gymwys iddo ar hyn o bryd, sef gwaith trin dŵr Cwm Taf Dŵr Cymru.

## Gweithdrefn

Cadarnhaol Drafft

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Gorchymyn gerbron y Senedd. Ni all Gweinidogion Cymru wneud y Gorchymyn oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Gorchymyn drafft.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodir fel a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

> *"4.9. Mae Ofwat wedi nodi na ddylai cwmnïau dŵr dalu'r [Darparwr a Benodir ar sail Cystadleuaeth] ar gyfer y prosiectau hyn nes y byddant wedi cael eu cwblhau a dod yn weithredol fel na fydd rhaid i gwmnïau dŵr (a ariennir gan filiau cwsmeriaid) dalu cyn i'r gwaith gael ei gwblhau a'i gyflawni."*
>
> *"4.11. Bydd gan bartïon sy'n ymrwymo i gaffaeliadau DPC wybodaeth lawn am y telerau, gan gynnwys y ffaith y bydd y taliad hwnnw ond yn dechrau ar ôl i'r gwaith adeiladu gael ei gwblhau."*

Fodd bynnag, mae erthygl 3(1)(d) o'r Gorchymyn yn dweud, er mwyn i Ran 2 o'r Ddeddf gael ei datgymhwyso, fod yn rhaid i'r contract fodloni'r amod a ganlyn (pwyslais wedi'i ychwanegu):

> *"(d) mae'r gydnabyddiaeth sy'n ddyledus o dan y contract yn cynnwys, **o leiaf yn rhannol**, daliadau rheolaidd—*
>
> > *(i) sy'n cael eu pennu'n rhannol drwy gyfeirio at gostau gwirioneddol y gweithrediadau adeiladu y mae'r contract yn ymwneud â hwy, a*
> >
> > *(ii) sy'n dod yn daladwy ar ôl i **un rhan o leiaf** o'r gweithrediadau adeiladu hynny gael ei chwblhau ac y gellir cyflawni gwasanaeth carthffosiaeth neu ddŵr."*

Byddem yn ddiolchgar pe gallai Llywodraeth Cymru egluro i ba raddau y mae'n rhaid gwneud taliadau dim ond ar ôl i brosiectau gael eu cwblhau.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

**<u>Pwynt Craffu ar Rinweddau 1:</u>**
Diben fersiwn ddrafft Gorchymyn Contractau Adeiladu (Eithrio) (Cymru) 2023 yw eithrio gwahanol warchodaethau (megis taliadau fesul cam) o gontractau adeiladu perthnasol y byddai'r contractau hynny fel arall yn eu cael o dan Ran 2 o Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996 ("y Ddeddf").

Mae adran 110(1A) o'r Ddeddf yn atal unrhyw deler mewn contract adeiladu sy'n gwneud taliad yn amodol ar gyflawni rhwymedigaeth o dan gontract arall.

Yn sgil trefniadau ariannu contractau Caffael Uniongyrchol i Gwsmeriaid ("DPC"), dim ond unwaith y bydd o leiaf un cam o'r ased garthffosiaeth neu ddŵr (neu ran ohono) wedi'i gwblhau a'i fod yn gallu gweithredu y bydd y taliad i'r cwmni sydd wedi cyflawni'r seilwaith gan y cwmni dŵr a charthffosiaeth sy'n comisiynu yn dechrau.

Mae'r cytundeb Darparwyr a Benodir ar Sail Cystadleuaeth ("CAP") ac is-gontractau haen gyntaf yn dod o dan y diffiniad o gontract adeiladu a gallant felly fod yn destun her am beidio â chydymffurfio â'r Ddeddf. Os nad ydynt yn cydymffurfio, byddai darpariaethau talu perthnasol y Cynllun ar gyfer Contractau Adeiladu yn cael eu hymhlygu yn y contract ac yn cael blaenoriaeth dros ddarpariaethau contractau a ddyluniwyd ar gyfer DPC. Byddai hyn yn cael effaith andwyol ar strwythur a gweithrediad y cytundebau DPC hyn.

Mae'r Gorchymyn yn eithrio dau fath o gontract adeiladu o'r Ddeddf:

• Contractau CAP DPC – wedi eu heithrio o holl ofynion Rhan 2 o'r Ddeddf; ac

• Is-gontractau Haen Gyntaf DPC – wedi eu heithrio o adran 110(1A) o'r Ddeddf.

Mae'r holl gontractau adeiladu sy'n weddill drwy'r gadwyn gyflenwi yn parhau yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Ddeddf.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**16 Mawrth 2023**

Eitem 4.1

# SL(6)330 – Gorchymyn Datblygu Arbennig Cynllunio Gwlad a Thref (Safle Rheoli ar y Ffin Gogledd Cymru) (Ymadael â'r UE) 2023

## Cefndir a diben

Mae adrannau 59 a 60 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud gorchymyn datblygu arbennig sy'n rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad a bennir yn y Gorchymyn.

Mae'r Gorchymyn datblygu arbennig hwn yn rhoi caniatâd cynllunio (yn ddarostyngedig i amodau) ar gyfer adeiladu a gweithredu safle rheoli ffiniau mewndirol ar gyfer Porthladd Caergybi a mannau parcio ychwanegol ar gyfer hyd at 60 o gerbydau nwyddau trwm ar Lain 9, Parc Cybi, Caergybi.

Mae'r Gorchymyn yn gosod terfynau ar faint a ffurf ffisegol cyfleusterau rheoli ffiniau a mannau parcio cerbydau nwyddau trwm y gall Llywodraeth Cymru ac adrannau ffiniau eu darparu ar y safle. Mae hefyd yn gofyn am adeiladu a gweithredu mesurau lliniaru.

## Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Gorchymyn gan Weinidogion Cymru cyn iddo gael ei osod gerbron y Senedd. Caiff y Senedd ddirymu'r Gorchymyn o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'i gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

1. **Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr y testun Cymraeg a'r testun Saesneg**

Ceir croesgyfeiriad anghyson rhwng y testunau Cymraeg a Saesneg ym mharagraff 31(3) o'r Atodlen. Mae'r testun Saesneg yn cyfeirio at baragraff 17(2) ond mae'r testun Cymraeg yn cyfeirio at baragraff 16(2). Ymddengys fod y fersiwn Saesneg yn gywir ar sail cyd-destun y darpariaethau perthnasol (mesurau lliniaru sŵn).

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Nodir mai prin yw'r math hwn o orchymyn – lle mae Gweinidogion Cymru yn gweithredu fel awdurdod cynllunio ac yn rhoi caniatâd cynllunio uniongyrchol ar gyfer datblygiad penodol, yn hytrach na gadael hyn i'r awdurdod lleol. Ymddengys mai dyma'r tro cyntaf i Weinidogion Cymru arfer y pŵer yn adran 59 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn y modd yma.

Nodir hefyd nad yw'r gofynion ymgynghori arferol ynghylch ceisiadau am ganiatâd cynllunio yn ymwneud â chaniatâd a roddir drwy orchymyn o'r fath. Yn ôl paragraff 5.1 o'r Memorandwm Esboniadol, "*Cynhaliwyd ymgynghoriad yn gymesur â'r hyn a fyddai wedi'i wneud argyfer cais cynllunio*".

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â phwynt un.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 20 Mawrth 2023 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.

**Ymateb y Llywodraeth: Gorchymyn Datblygu Arbennig Cynllunio Gwlad a Thref (Safle Rheoli ar y Ffin Gogledd Cymru) (Ymadael â'r UE) 2023**

Pwynt Craffu Technegol 1: Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn y pwynt adrodd a byddant yn ceisio gwneud y newid drwy gywiro slip.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LLYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Cyfarfod Rhynglywodraethol ar 6 Mawrth** |
| **DYDDIAD** | **23 Mawrth 2023** |
| **GAN** | **Lesley Griffiths AS, y Gweinidog Materion Gwledig, Gogledd Cymru a'r Trefnydd** |

Yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol, rwy'n ysgrifennu i roi gwybod ichi fy mod wedi bod mewn cyfarfod o'r Grŵp Rhyngweinidogol ar gyfer yr Amgylchedd, Bwyd a Ffeiriau Gwledig a gynhaliwyd ar 6 Mawrth 2023.

Fi gadeiriodd y cyfarfod, a hefyd yn bresennol yr oedd: Mairi Gougeon ASP, Ysgrifennydd y Cabinet dros Faterion Gwledig a'r Ynysoedd, Llywodraeth yr Alban; Lorna Slater MSP, Gweinidog Sgiliau Gwyrdd, yr Economi Gylchol, a Bioamrywiaeth yn Llywodraeth yr Alban; Rebecca Pow AS, Gweinidog Ansawdd a Chadernid yr Amgylchedd, Mark Spencer AS, y Gweinidog Bwyd, Ffermio a Physgodfeydd, James Davies AS, Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol Cymru, John Lamont AS, Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol i Swyddfa'r Alban, Steve Baker AS, Gweinidog Gwladol Llywodraeth y DU yn Swyddfa Gogledd Iwerddon; a Katrina Godfrey, Ysgrifennydd Parhaol, DAERA yn absenoldeb
gweinidogion Gogledd Iwerddon.

Agorodd y cyfarfod gyda thrafodaeth am Fil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (REUL) sydd, ar hyn o bryd, yn mynd drwy'r Cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Arglwyddi. Rhoddodd pob un o'r Llywodraethau'r wybodaeth diweddaraf am sut y maent yn mynd ati i nodi ac i gategoreiddio'r Bil, gan ganmol y ffordd gadarnhaol y mae'r gweinyddiaethau wedi ymwneud â'i gilydd yn hynny o beth. Buont hefyd yn trafod y rhaglenni deddfwriaethol seneddol sydd eu hangen er mwyn dargadw, diddymu neu ddiwygio eitemau unigol o ddeddfwriaeth. Wedyn, rhoddodd Llywodraeth yr Alban yr wybodaeth ddiweddaraf am hynt eu Cynlluniau Dychwelyd Ernes, a chynhaliwyd trafodaeth am gais Llywodraeth yr Alban i gael ei heithrio o Ddeddf Marchnad Fewnol y DU.

Wedyn, cyfeiriais at y sefyllfa sydd ohoni o ran prinder bwyd a diogelwch bwyd, gan dynnu sylw at yr angen i gydweithio ar y mater hwn, sy'n effeithio ar bob rhan o'r DU. Buom yn

trafod yr effeithiau cronnol mae materion fel y rhyfel yn Wcráin a phrinder llafur yn parhau i'w cael, a sut y mae'r newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar y cyflenwad bwyd. Cytunwyd i drafod mwy ar yr eitem hon yn y Cyfarfod Rhynglywodraethol ym mis Ebrill.

Yn olaf, cyfeiriodd Llywodraeth yr Alban a minnau at y ffaith bod diffyg cynnydd ar wahanol ddarnau o ddeddfwriaeth ar les anifeiliaid, gan wneud cais am ddiweddariad ysgrifenedig.

Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ddydd Llun 17 Ebrill.

Bydd hysbysiad am y cyfarfod hwn yn cael ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth y DU. (Saesneg yn Unig)

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS

Cadeirydd

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

[Huw.Irranca-Davies@senedd.cymru](mailto:Huw.Irranca-Davies@senedd.cymru)

23 Mawrth 2023

Annwyl Huw,

Yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol, rwy'n ysgrifennu i roi gwybod ichi fy mod wedi bod mewn cyfarfod o'r Grŵp Rhyngweinidogol ar gyfer yr Amgylchedd, Bwyd a Ffeiriau Gwledig a gynhaliwyd ar 6 Mawrth 2023.

Fi gadeiriodd y cyfarfod, a hefyd yn bresennol yr oedd: Mairi Gougeon ASP,

Ysgrifennydd y Cabinet dros Faterion Gwledig a'r Ynysoedd, Llywodraeth yr Alban; Lorna Slater MSP, Gweinidog Sgiliau Gwyrdd, yr Economi Gylchol, a Bioamrywiaeth yn Llywodraeth yr Alban; Rebecca Pow AS, Gweinidog Ansawdd a Chadernid yr Amgylchedd, Mark Spencer AS, y Gweinidog Bwyd, Ffermio a Physgodfeydd, James Davies AS, Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol Cymru, John Lamont AS, Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol i Swyddfa'r Alban, Steve Baker AS, Gweinidog Gwladol Llywodraeth y DU yn Swyddfa Gogledd Iwerddon; a Katrina Godfrey, Ysgrifennydd Parhaol, DAERA yn absenoldeb gweinidogion Gogledd Iwerddon.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
[Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru)
[Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales](mailto:Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Agorodd y cyfarfod gyda thrafodaeth am Fil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (REUL) sydd, ar hyn o bryd, yn mynd drwy'r Cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Arglwyddi. Rhoddodd pob un o'r Llywodraethau'r wybodaeth diweddaraf am sut y maent yn mynd ati i nodi ac i gategoreiddio'r Bil, gan ganmol y ffordd gadarnhaol y mae'r gweinyddiaethau wedi ymwneud â'i gilydd yn hynny o beth. Buom hefyd yn trafod y rhaglenni deddfwriaethol

seneddol sydd eu hangen er mwyn dargadw, diddymu neu ddiwygio eitemau unigol o ddeddfwriaeth. Wedyn, rhoddodd Llywodraeth yr Alban yr wybodaeth ddiweddaraf am hynt eu Cynlluniau Dychwelyd Ernes, a chynhaliwyd trafodaeth am gais Llywodraeth yr Alban i gael ei heithrio o Ddeddf Marchnad Fewnol y DU.

Wedyn, cyfeiriais at y sefyllfa sydd ohoni o ran prinder bwyd a diogelwch bwyd, gan dynnu sylw at yr angen i gydweithio ar y mater hwn, sy'n effeithio ar bob rhan o'r DU. Buom yn trafod yr effeithiau cronnol mae materion fel y rhyfel yn Wcráin a phrinder llafur yn parhau i'w cael, a sut y mae'r newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar y cyflenwad bwyd.

Cytunwyd i drafod mwy ar yr eitem hon yn y Cyfarfod Rhynglywodraethol ym mis Ebrill.

Yn olaf, cyfeiriodd Llywodraeth yr Alban a minnau at y ffaith bod diffyg cynnydd ar wahanol ddarnau o ddeddfwriaeth ar les anifeiliaid, gan wneud cais am ddiweddariad ysgrifenedig.

Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ddydd Llun 17 Ebrill.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Bydd hysbysiad am y cyfarfod hwn yn cael ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth y DU: https://www.gov.uk/government/publications/communique-from-the-inter-ministerial-group-for-environment-food-and-rural-affairs.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd, a Seilwaith ac at Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

Cofion,

Lesley Griffiths

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio – Gwelliannau ynghylch Trafodion Rhithwir** |
| **DYDDIAD** | **21 Mawrth 2023** |
| **GAN** | **Julie James AS, y Gweinidog Newid Hinsawdd** |

Gosodir y datganiad ysgrifenedig hwn o dan Reol Sefydlog 30 - Hysbysu, mewn perthynas â Biliau Senedd y DU. Mae'n ymwneud â darpariaeth gwelliant[1], Llywodraeth y DU yn y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio ("y Bil") a gyflwynwyd ar 23 Chwefror 2023 yn ystod Cyfnod Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi, a fydd yn addasu swyddogaethau Gweinidogion Cymru. Fodd bynnag, nid oes angen Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol o dan Reol Sefydlog 29 arni gan nad oes gan y Senedd gymhwysedd deddfwriaethol mewn perthynas â'r ddarpariaeth gwelliant. Cyflwynwyd y Bil yn Senedd y DU, Tŷ'r Cyffredin ar 11 Mai 2022.

Roedd darpariaethau eraill o'r Bil angen cydsyniad deddfwriaethol Senedd Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys darpariaethau ynghylch cynllunio defnydd tir; adroddiadau canlyniadau amgylcheddol ar gyfer cydsyniadau penodol; gwybodaeth a chofnodion yn ymwneud â thir, yr amgylchedd neu dreftadaeth; llywodraethu Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig; a chrwydraeth a chardota. Gosodais Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol[2] a Datganiad Ysgrifenedig[3] gerbron y Senedd ar 28 Medi 2022 yn unol â Rheol Sefydlog 29 a 30 yn y drefn honno. Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol diwygiedig[4] ar 25 Tachwedd 2022. Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol[5] ar 30 Tachwedd 2022 yn ymwneud â nifer o welliannau gan Lywodraeth y DU a gynigiwyd yn ystod cyfnod Adrodd Tŷ'r Cyffredin.

## Y ddarpariaeth gwelliant berthnasol

Mae'r gwelliant a gynigir yn gwneud darpariaeth i alluogi'r Ysgrifennydd Gwladol ganiatáu, neu ei gwneud yn ofynnol i berson sy'n cymryd rhan mewn trafodion perthnasol penodol sy'n ymwneud â chynllunio tir, datblygu tir neu brynu tir yn orfodol wneud hynny'n gyfan gwbl neu'n rhannol o bell (h.y. trafodion rhithwir). Un o'r trafodion

[1] HL Bill 84—III (parliament.uk)
[2] https://senedd.cymru/media/aekd01xo/lcm-ld15356-w.pdf
[3] gen-ld15357-w.pdf (senedd.cymru)
[4] https://senedd.cymru/media/b0ic0haf/lcm-ld15495-w.pdf
[5] https://senedd.cymru/media/imxhvdlh/slcm-ld15508-w.pdf

perthnasol hynny yw trafodion o dan adran 13A o Ddeddf Caffael Tir 1981 neu baragraff 4A o Atodlen 1 iddi ("Deddf 1981").

Mae'r gwelliant yn ychwanegu elfen newydd i un o swyddogaethau presennol yr Ysgrifennydd Gwladol (neu arolygydd) o dan Ddeddf 1981 a fydd yn galluogi iddynt ganiatáu neu ei gwneud yn ofynnol i berson sy'n cymryd rhan mewn trafodion penodol sy'n ymwneud â phrynu tir yn orfodol wneud hynny'n gyfan gwbl neu'n rhannol o bell. Yn rhinwedd Gorchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau 1999, effaith y ddarpariaeth yw bod y swyddogaeth hon yn arferadwy gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â Gorchmynion Prynu Gorfodol sy'n ymwneud â meysydd nas cedwir yn ôl ac a wneir yng Nghymru ac sy'n cael eu gosod i'w cadarnhau gan Weinidogion Cymru fel yr awdurdod cadarnhau.

Fel y nodwyd yn fy Natganiad Ysgrifenedig[6] dyddiedig 28 Medi 2022 a oedd yn ymwneud â'r Bil, cymhwysedd cyfyngedig sydd gan Senedd Cymru o ran prynu gorfodol mewn meysydd datganoledig, gan gynnwys ym meysydd cynllunio tai a defnydd tir. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu bod rhaid i unrhyw addasiadau arfaethedig i gyfraith prynu gorfodol, drwy gyfrwng deddfwriaeth sylfaenol, fod yn glir yng nghyd-destun newidiadau penodol i gyfraith cynllunio defnydd tir neu unrhyw fater arall nas cedwir yn ôl. Nid yw Senedd Cymru felly yn gallu addasu cyfraith prynu gorfodol yn gyffredinol, neu er ei mwyn ei hun neu i gyflawni canlyniadau a gedwir yn ôl. Mae hyn yn atal Senedd Cymru rhag addasu'r rheolau cyffredinol ynghylch prynu gorfodol mewn deddfwriaeth megis Deddf Caffael Tir 1981 mewn perthynas â phob caffaeliad gorfodol yng Nghymru.

O ganlyniad felly, mae'r ddarpariaeth yn dod o dan Reol Sefydlog 30 ar gyfer darpariaethau a fydd yn addasu swyddogaethau Gweinidogion Cymru ond nad oes angen Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol o dan Reol Sefydlog 29 arnynt.

**<u>Y rhesymau dros wneud y ddarpariaeth</u>**

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i wella'r broses prynu gorfodol er mwyn ei gwneud yn decach, yn fwy effeithlon a dealladwy. Ein blaenoriaeth yw cael gwared â rhwystrau o ran pwerau prynu gorfodol ac annog awdurdodau lleol i wneud rhagor o ddefnydd ohonynt a hynny drwy symleiddio a moderneiddio'r broses prynu gorfodol.

Fel llywodraeth, rydym o'r farn mai mân welliant yw hwn i swyddogaeth Gweinidogion Cymru sy'n bodoli eisoes o ran eu rôl o fod yn awdurdod cadarnhau. Mae'r ddarpariaeth gwelliant yn cadarnhau pŵer ymhlyg sy'n bodoli eisoes mewn deddfwriaeth sydd eisoes yn caniatáu i awdurdodau cadarnhau ei gwneud yn ofynnol i gynnal gwrandawiadau neu drafodion yn rhithwir. Yn awdurdod cadarnhau, bydd hyn yn cynorthwyo Gweinidogion Cymru i arfer eu swyddogaethau yn effeithiol ac yn effeithlon.

Rwyf o'r farn ei bod yn briodol i'r ddarpariaeth fod yn gymwys o ran Cymru ac iddi gael ei chynnwys yn y Bil hwn.

---

[6] https://senedd.cymru/media/5qposota/gen-ld15357-w.pdf

Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS
Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref FM -/0880/23

Elin Jones MS/AS
Llywydd
Senedd Cymru

llywydd@senedd.Cymru

22 Mawrth 2023

Annwyl Elin

Byddwch yn ymwybodol bod y Senedd wedi pasio'r Bil Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) ar 6 Rhagfyr 2022. Er mwyn tryloywder, hoffwn ddisgrifio bwriadau'r Llywodraeth o ran Cysyniad Brenhinol a dod â'r Ddeddf i rym.

Rhoddodd y Gweinidog Newid Hinsawdd dystiolaeth i dri phwyllgor. Copïaf y llythyr hwn at Gadeiryddion y pwyllgorau hynny.

Mae'r Bil yn ennyn Cytundeb Rhwystrau Technegol i Fasnachu Sefydliad Masnach y Byd (WTO), sy'n cynnwys mesur cyfreithiol i roi cyfnod rhesymol (chwe mis fel rheol) rhwng pasio a chyhoeddi deddfwriaeth sy'n effeithio ar fasnach a dod â hi i rym. Mae'r gofyniad er mwyn caniatáu i fusnesau yn aelod-wledydd y WTO addasu eu cynhyrchion i fodloni gofynion y gofyniadau newydd. Mae'r Bil yn cynnwys nifer o ddarpariaethau sylweddol a fydd yn cychwyn y diwrnod ar ôl Cysyniad Brenhinol. O ganlyniad, ni fwriadaf osod y Sêl Gymreig ar y Breinlythyrau nes bod y cyfnod chwe mis i hysbysu'r WTO wedi dod i ben yn gynnar ym mis Mehefin.

Dyma'r tro cyntaf ers i'r Deyrnas Unedig adael yr Undeb Ewropeaidd i'r Senedd basio Bil sy'n ennyn y broses WTO hon. Yn ddatblygiad o ymarfer da, yn y dyfodol sicrhaf y cewch eich hysbysu mewn ysgrifen am unrhyw ddeddfwriaeth arall y disgwyliwn i ennyn y weithdrefn WTO hon.

Rwy'n hapus i drafod yr ymagwedd hon yn bellach gyda chi pan gwrddwn heddiw. Rwy'n copïo'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd, Amgylchedd ac Seilwaith;

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakefordy@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, a Chadeirydd y Pwyllgor Cyllid.

Yn gywir

**MARK DRAKEFORD**

Y Pwyllgor Busnes

Business Committee

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd CF99 1SN
SeneddBusnes@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddBusnes
0300 200 6565

Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff CF99 1SN
SeneddBusiness@senedd.wales
Senedd.wales/SeneddBusiness
0300 200 6565

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

22 Mawrth 2023

**Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) a Dyddiadau Toriad y Senedd**

Annwyl Huw,

Yn dilyn ein llythyr ar 10 Mawrth, rhoddodd y Pwyllgor Busnes ragor o ystyriaeth i *Argymhelliad 14* o'ch adroddiad ar y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) wrth gadarnhau dyddiadau toriad ar gyfer tymor yr hydref, gan gynnwys toriad Nadolig 2023, yn ein cyfarfod ar 21 Mawrth.

Rydym yn cydnabod bod angen cadw effaith y Bil ar amser y Senedd, ar gyfer pwyllgorau a'r Cyfarfod Llawn, dan ystyriaeth fanwl. Fodd bynnag, o ystyried yr angen i gadarnhau dyddiadau tymor yr hydref mewn modd amserol er mwyn rhoi eglurder i bwyllgorau'r Senedd ac eraill, a'r ffaith nad yw ffurf derfynol y Bil na sut y byddai Llywodraeth Cymru yn ymateb i'w darpariaethau'n hysbys eto, gwnaethom benderfynu peidio â gwneud newidiadau i'r trefniadau ar gyfer toriad Nadolig 2023 ar hyn o bryd.

Cytunodd y Pwyllgor y byddem yn ystyried ailedrych ar y mater hwn, a mesurau posibl eraill, yn ddiweddarach yn y flwyddyn pe bai angen, pan fydd darpariaethau terfynol y Bil a'r effaith ar y Senedd yn hysbys.

Cofion cynnes,



Senedd Cymru
Welsh Parliament

**Y Gwir Anrh. Elin Jones AS**

Y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

**Julie James AS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA/JJ/2983/22

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

SeneddDCC@senedd.cymru

23 Mawrth 2023

Annwyl Huw,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 14 Mawrth lle y gwnaethoch ofyn am ymateb y llywodraeth i adroddiad drafft y Pwyllgor gan gyfreithwyr y Senedd fel rhan o'u hadolygiad o Reoliadau Gwastraff Deunydd Pacio (Casglu a Chofnodi Data) (Cymru) 2023 ("y Rheoliadau”).

Fel y gofynnwyd, mae'r ymateb i'r pwyntiau a godwyd yn adroddiad drafft y Pwyllgor wedi'i nodi yn yr Atodiad i'r llythyr hwn.

O ran eich pwynt a allai unrhyw un o'r materion a godwyd yn yr adroddiad fod â goblygiadau i'r rheoliadau cyfatebol ar gyfer Lloegr, Gogledd Iwerddon, a'r Alban, mae'n bwysig nodi bod y rheoliadau cyfatebol eisoes mewn grym yn y gwledydd hynny. Fel y nodwyd yn fy llythyr dyddiedig 10 Mawrth, mae Llywodraeth y DU yn bwriadu cyflwyno offeryn diwygio i fynd i'r afael â materion polisi sy’n weddill ac mae fy swyddogion yn cysylltu â'u cymheiriaid yn y gweinyddiaethau eraill i drafod y materion a godwyd yn yr adroddiad drafft.

Yn gywir,

**Julie James AS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Nghymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Bydd unrhyw ohebiaeth sy'n dod i law yn y Gymraeg yn cael ei ateb yn y Gymraeg ac ni fydd gohebu yn y Gymraeg yn arwain at oedi cyn ymateb.

**ATODIAD**

**Ymateb y Llywodraeth: Rheoliadau Gwastraff Pecynwaith (Casglu ac Adrodd am Ddata) (Cymru) 2023**

**<u>Pwynt Craffu Technegol 1:</u>**

Mae'r testun Saesneg yn y diffiniad o "pub operating agreement" yn rheoliad 2(1) yn gywir wrth ddefnyddio'r ymadrodd "on or from the premises". Felly bydd y testun Cymraeg yn cael ei ddiwygio i ddatgan "yn y fangre neu o'r fangre". Mae Rheoliadau Gwastraff Pecynwaith (Casglu ac Adrodd am Ddata) (Cymru) 2023 wedi eu tynnu'n ôl a chânt eu diwygio cyn eu hailosod.

**<u>Pwyntiau Craffu Technegol 2-5:</u>**

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn pwyntiau craffu technegol 2 i 5. Mae Rheoliadau Gwastraff Pecynwaith (Casglu ac Adrodd am Ddata) (Cymru) 2023 wedi eu tynnu'n ôl a chânt eu diwygio cyn eu hailosod.

**<u>Pwynt Craffu Technegol 6:</u>**

O ran y pwynt cyfwerthedd y mae'r Pwyllgor yn ei godi ar gyfieithu "Packaging (Essential Requirements) Regulations 2015", defnyddiwyd y cyfieithiad amgen, "deunydd pacio" yma er mwyn sicrhau cysondeb â'r ffordd y mae'r enw wedi'i gyfieithu yn y gorffennol. Fodd bynnag, gan ei fod yn deitl cwrteisi ar gyfer rheoliadau sydd ond yn bodoli yn Saesneg, cytunwyd y byddai cysondeb o fewn y Rheoliadau hyn yn well na chysondeb â chyfieithiad a ddefnyddiwyd yn flaenorol. Felly mae Llywodraeth Cymru yn derbyn pwynt craffu technegol 6 ac mae Rheoliadau Gwastraff Pecynwaith (Casglu ac Adrodd am Ddata) (Cymru) 2023 wedi eu tynnu'n ôl a chânt eu diwygio cyn eu hailosod.

O ran y pwynt y mae'r Pwyllgor yn ei godi ynghylch y ffaith bod terminoleg paragraffau (2) a (3) yn anghyson o fewn rheoliad 6 o'r Rheoliadau, mae Llywodraeth Cymru yn derbyn y pwynt craffu technegol hwn ac mae Rheoliadau Gwastraff Pecynwaith (Casglu ac Adrodd am Ddata) (Cymru) 2023 wedi eu tynnu'n ôl a chânt eu diwygio cyn eu hailosod.

**<u>Pwynt Craffu Technegol 7:</u>**

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y diffiniad o "pecynwaith cartref" yn rheoliad 7(1) yn ddigon clir ar y pwynt mai "pecynwaith cartref" yw unrhyw becynwaith cynradd neu becynwaith cludo nad yw'n cael ei gyflenwi i fusnes sy'n ddefnyddiwr terfynol y pecynwaith hwnnw. Eglurir hyn ymhellach gan reoliad 7(2).

Mae'r cynllun Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr ("EPR") cyffredinol ar gyfer pecynwaith yn cael ei gyflwyno ledled pedair gwlad y DU gyda rheoliadau cyfatebol adrodd am ddata yn cael eu gosod ym mhob un o'r deddfwrfeydd. Mae'r diffiniad a ddefnyddir yn gyson â'r hyn a ddefnyddir yn y rheoliadau yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon gan fod diffiniad cyffredin yn hanfodol er mwyn helpu busnesau i gydymffurfio a sicrhau cysondeb wrth gasglu ac adrodd am ddata ledled y DU.

Nid ystyrir bod angen diwygiad i fynd i'r afael â'r pwynt craffu technegol hwn.

**Pwyntiau Craffu Technegol 8-11:**

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn pwyntiau craffu technegol 8 i 11. Mae Rheoliadau Gwastraff Pecynwaith (Casglu ac Adrodd am Ddata) (Cymru) 2023 wedi eu tynnu'n ôl a chânt eu diwygio cyn eu hailosod.

**Pwynt Craffu Technegol 12:**

Mae'r Pwyllgor wedi nodi "*In paragraph 1(a) of Schedule 1, the term "commencement date" is defined as having a meaning "In this Schedule". But, the definition doesn't appear to be used in the Schedule, so this is defective drafting.*"

Mae'r term "dyddiad cychwyn" yn cael ei ddiffinio ym mharagraff 1(a) o Atodlen 1 i olygu'r "*dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym*". Fodd bynnag, gan nad yw'r term hwnnw yn cael ei ddefnyddio wedi hynny yn yr Atodlen, mae Llywodraeth Cymru yn derbyn pwynt craffu technegol 12. Mae Rheoliadau Gwastraff Pecynwaith (Casglu ac Adrodd am Ddata) (Cymru) 2023 wedi eu tynnu'n ôl a chânt eu diwygio cyn eu hailosod.

**Pwynt Craffu Technegol 13:**

Mae "llunio" yn cael ei restru fel un o gyfieithiadau posibl"conceive" yng Ngeiriadur yr Academi. Fodd bynnag, er cysondeb mae Llywodraeth Cymru yn derbyn pwynt craffu technegol 11. Mae Rheoliadau Gwastraff Pecynwaith (Casglu ac Adrodd am Ddata) (Cymru) 2023 wedi eu tynnu'n ôl a chânt eu diwygio cyn eu hailosod.

**Pwynt Craffu Technegol 14:**

Gallwn gadarnhau mai'r bwriad, ym mharagraff 15(c) o Atodlen 1, yw gosod dyletswydd i gadw cofnodion o "pecynwaith nas llanwyd" a "pecynwaith cartref nas llanwyd". Derbynnir pwynt craffu technegol 14 ac mae Rheoliadau Gwastraff Pecynwaith (Casglu ac Adrodd am Ddata) (Cymru) 2023 wedi eu tynnu'n ôl a chânt eu diwygio cyn eu hailosod.

**Pwynt Craffu ar Rinweddau 15:**

Nodir y pwynt.  Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y ddeddfwriaeth yn hygyrch oherwydd bydd y cyhoedd yn gallu cael gafael ar y Gyfarwyddeb Gwastraff ar legislation.gov.uk.  Felly nid ystyrir bod angen diwygiad i fynd i'r afael â'r pwynt craffu ar rinweddau hwn.

**Pwynt Craffu ar Rinweddau 16:**

Nodir y pwynt.  Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y ddeddfwriaeth yn hygyrch oherwydd bydd y cyhoedd yn gallu cael gafael ar Reoliadau Pecynwaith (Gofynion Hanfodol) 2015 ar legislation.gov.uk.  Felly nid ystyrir bod angen diwygiad i fynd i'r afael â'r pwynt craffu ar rinweddau hwn.

**Pwynt Craffu ar Rinweddau 17:**

Nodir y pwynt hwn. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi ymgynghori â rhanddeiliaid (gan gynnwys CNC) ynghylch sefydlu cynllun EPR newydd. Yn ogystal, ategir cyflwyno'r Rheoliadau hyn gan broses ymgysylltu â rhanddeiliaid gynhwysfawr ledled y DU. Mae hyn yn cynnwys cyfres o sesiynau ymwybyddiaeth yn targedu’r rhai sydd â rhwymedigaeth o dan y rheoliadau sydd eisoes ar waith ac yn mynd rhagddynt. Nod y rhain yw rhannu’r newidiadau hyn a helpu busnesau i ddeall y rhwymedigaethau a osodir arnynt. Felly nid ystyrir bod angen diwygiad i fynd i'r afael â'r pwynt craffu ar rinweddau hwn.

**Pwynt Craffu ar Rinweddau 18:**

Nodir y pwynt hwn.  Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y brosesgyfeirio yn y Rheoliadau yn sicrhau bod y Rheoliadau yn hygyrch ac yn rhoi eglurder i gynhyrchwyr ynghylch eu rhwymedigaethau o dan y Rheoliadau.

Yn ogystal, ategir cyflwyno'r Rheoliadau hyn gan broses ymgysylltu â rhanddeiliaid gynhwysfawr.  Mae hyn yn cynnwys cyfres o sesiynau ymwybyddiaeth yn targedu’r rhai sydd â rhwymedigaeth o dan y Rheoliadau sydd eisoes ar waith ac yn mynd rhagddynt.  Nod y rhain yw rhannu’r newidiadau hyn a helpu busnesau i ddeall y rhwymedigaethau a osodir arnynt.

**Pwynt Craffu ar Rinweddau 19:**

Nodir y pwynt hwn. Fodd bynnag, nid ystyriwyd bod angen diffinio “cyfnod rhesymol” o ystyried y bydd yr hyn a allai gael ei ystyried yn rhesymol yn debygol o fod yn wahanol gan ddibynnu ar y lefel o wybodaeth y gofynnir amdani ym mhob achos unigol.   Felly nid ystyrir bod angen diwygiad i fynd i'r afael â'r pwynt craffu ar rinweddau hwn.

**Pwynt Craffu ar Rinweddau 20:**

Nodir y pwynt hwn. Fodd bynnag, bydd y Rheoliadau hyn yn cael eu disodli gan y brif gyfres o Reoliadau Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr (“EPR”) a fydd yn cyflwyno’r agweddau eraill ar y diwygiadau EPR ym maes pecynwaith ac felly mae terfyn amser i’r gofyniad hwn. O dan y Rheoliadau EPR trosglwyddir y cyfrifoldeb am gyhoeddi rhestrau o eitemau wedi eu hailgylchu o CNC i weinyddwr cynllun a fydd yn cael ei sefydlu i weithredu'r drefn. Felly nid ystyrir bod angen diwygiad i fynd i'r afael â'r pwynt craffu ar rinweddau hwn.

**Pwynt Craffu ar Rinweddau 21:**

Nodir y pwynt hwn. Fodd bynnag, ni fyddai Llywodraeth Cymru am weld sefyllfa pan fo cydsyniad tybiedig ynddiofyn ac mae'n bwysig bod CNC fel y rheoleiddiwr yn penderfynu ar y cais. Felly nid ystyrir bod angen diwygiad i fynd i'r afael â'r pwynt craffu ar rinweddau hwn.

**Pwynt Craffu ar Rinweddau 22:**

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn y pwynt hwn. Mae'r Memorandwm Esboniadol wedi ei dynnu'n ôl a chaiff ei ddiwygio cyn ei ailosod.

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawndder a'r Cyfansoddiad**
—
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Julie James AS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd

14 Mawrth 2023

Annwyl Julie

Rheoliadau Gwastraff Pecynwaith (Casglu ac Adrodd am Ddata) (Cymru) 2023

Yn ein cyfarfod yr wythnos yma gwnaethom drafod eich llythyr dyddiedig 10 Mawrth 2023; sy'n dilyn eich llythyr atom ni ar 1 Mawrth 2023 a thynnu Rheoliadau Gwastraff Pecynwaith (Casglu ac Adrodd am Ddata) (Cymru) 2023 (y Rheoliadau) yn ôl ar 8 Mawrth 2023.

Tynnodd eich llythyr dyddiedig 1 Mawrth ein sylw at wallau a nodwyd gennych yn y Rheoliadau. Mae eich llythyr diweddaraf dyddiedig 10 Mawrth yn cydnabod bod ein hadroddiad drafft ar y Rheoliadau wedi'i anfon at Lywodraeth Cymru cyn iddynt gael eu tynnu'n ôl.

Mae'r cwestiynau a'r materion a godwyd yn yr adroddiad drafft ar gyfer y fersiwn o'r Rheoliadau a dynnwyd yn ôl ar 8 Mawrth wedi'u hailadrodd yn yr Atodiad. Ni fyddem fel arfer yn ceisio ymateb gan y llywodraeth i adroddiad drafft ar ôl i'r Rheoliadau y mae'n ymwneud â hwy gael eu tynnu'n ôl. Fodd bynnag, yn yr amgylchiadau presennol, byddai'n helpu gyda'n hystyriaeth o'r rheoliadau newydd pe baech yn ymdrin â'r materion hyn ac yn ymateb cyn gynted â phosibl. Yn benodol byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb i'r pwyntiau yn yr adroddiad drafft lle ceisir eglurhad pellach o dan Reol Sefydlog 21.2(v).

Byddwn hefyd yn ddiolchgar o gael eich safbwyntiau ynghylch a allai unrhyw rai o'r materion a godwyd fod â goblygiadau i'r rheoliadau cyfatebol ar gyfer Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban.

Yn gywir

Huw Irranca-Davies

Cadeirydd

Atodiad

1. **Rheol Sefydlog 21.2(v) - bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Yn rheoliad 2(1), yn y diffiniad o “cytundeb gweithredu tafarn”, mae gwahaniaeth ystyr rhwng y testunau Cymraeg a Saesneg. Yn y testun Saesneg, nodir “on **or from the** premises" ond cyfieithwyd hyn i "yn y fangre **neu heb fod yn y** fangre" yn y testun Cymraeg.

Yn y testun Saesneg, defnyddir yr ymadrodd “on **and off the** premises” yn ddiweddarach yn rheoliad 9(2)(b)(i) a (ii), ac mae testun y Gymraeg, sef “yn y fangre **a heb fod yn y** fangre” yn cyfateb yn y rheoliad hwnnw.

Felly, mae angen eglurhad pellach ynghylch a yw’r testun Saesneg yn y diffiniad o “cytundeb gweithredu tafarn” yn rheoliad 2(1) yn gywir wrth ddefnyddio’r ymadrodd “on or from the premises”, neu a yw’r testun Cymraeg wedi cyfieithu ystyr yr ymadrodd yn anghywir yma.

(Gweler adran 3(2)(c) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018 (dccc 5), a pharagraff 3(1)(b) o Atodlen 2 i OS 2020/1149 (Cy. 261) am enghreifftiau lle mae “on or from the premises” wedi’i gyfieithu’n gywir yn nhestun Cymraeg y ddeddfwriaeth.)

2. **Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu’r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Yn rheoliad 2(1), nid yw’n ymddangos bod y diffiniad o “adfer” (“recovery”) yn cael ei ddefnyddio yn unrhyw le yn nhestun Cymraeg na Saesneg yr OS hwn sydd â’r ystyr a roddir gan Erthygl 3(15) o’r Gyfarwyddeb Wastraff, ac felly mae'n waith drafftio diffygiol.

At hynny, mae enghraifft o “recovery” a ddefnyddir yn nhestun Saesneg rheoliad 5(4) yng nghyd-destun diodydd chwaraeon. Felly, bydd “recovery” yn nhestun Saesneg rheoliad 5(4) yn dwyn yr ystyr a roddir gan reoliad 2(1) fel y’i drafftiwyd ar hyn o bryd, sy’n ymddangos yn anghywir. Mae’r testun Cymraeg yn defnyddio gair gwahanol i gyfleu “recovery” yn rheoliad 5(4) o gymharu â rheoliad 2(1), sef ‘”ymadfer” ac felly nid yw’r mater ychwanegol hwn yn codi yn y cyfieithiad.

3. **Rheol Sefydlog 21.2(v) - bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Yn rheoliad 2(1), a ddylai fod diffiniad o “cyflenwi” sy'n egluro bod iddo'r ystyr a roddir yn rheoliad 10(1)? Mae termau eraill a ddiffinnir mewn rheoliadau diweddarach wedi’u cyfeirio yn y modd hwn yn rheoliad 2(1) megis “diod”, “pecynwaith”, “trwyddedwr” a “busnes gweithredu tafarn”.

4. **Rheol Sefydlog 21.2(v) - bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Yn rheoliad 3(5), yn y testun Saesneg, mae rhwymedigaeth i hysbysu rheoleiddiwr y DU yn y “wlad” (“country”) a bennir mewn hysbysiad a roddir o dan reoliad 3(3). Fodd bynnag, defnyddir y term “nation” mewn man arall yn y testun Saesneg drwy'r OS, gan gynnwys yn rheoliad 3(3). Felly, mae'r testun Saesneg yn anghyson o ran terminoleg ac yn wahanol i weddill yr OS. Yn y testun Cymraeg, mae’r un term “gwlad” wedi’i ddefnyddio yn rheoliad 3(3) a (5) ar gyfer “nation” a “country”, a thrwy weddill yr OS ar gyfer “nation”.

**5. Rheol Sefydlog 21.2(vii) - ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu’r drafft.**

Yn rheoliad 6(1)(b), mae gwahaniaeth rhwng y testunau Cymraeg a Saesneg. Mae’r testun Saesneg yn cynnwys y geiriau “whether it is **supplied** as such to the final user or consumer”. Fodd bynnag, defnyddiwyd “**ei werthu**” yn y testun Cymraeg yn hytrach nag “**ei gyflenwi**” yn y man cyfatebol yn y cyfieithiad. Rhoddir ystyr “cyflenwi” gan reoliad 10 o'r Rheoliadau hyn ac felly mae'n wahaniaeth sylweddol.

**6. Rheol Sefydlog 21.2(vii) - ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu’r drafft.**

Yn nhestun Cymraeg rheoliad 2(1), mae "Packaging" wedi'i ddiffinio a'i gyfieithu fel "Pecynwaith" a dyma a ddefnyddir drwy'r Rheoliadau hyn. Fodd bynnag, yn rheoliad 6(3), mae "Deunydd Pacio" wedi'i ddefnyddio yn nheitl "y Rheoliadau **Deunydd Pacio** (Gofynion Hanfodol) 2015”. Dyma'r unig le y mae “Deunydd Pacio” wedi'i ddefnyddio fel cyfieithiad yn y Rheoliadau hyn ar gyfer “Packaging” ac mae'n anghyson â'r derminoleg a ddefnyddir mewn mannau eraill. Mae hyn yn awgrymu i ddarllenydd y testun Cymraeg bod iddo ystyr gwahanol i “Pecynwaith”.

Yn nhestun y ddwy iaith, mae’n cyfeirio at y “**rheolau** a nodir ym mharagraff (2)” ond os ewch i baragraff (2) o reoliad 6 mae’n eu disgrifio fel “**y meini prawf**”. Felly, mae terminoleg paragraffau (2) a (3) yn anghyson yn rheoliad 6 o’r Rheoliadau hyn. At hynny, mae rheoliad 3(3)(a) o Reoliadau Deunydd Pacio (Gofynion Hanfodol) 2015 ac Atodlen 5 iddynt yn cyfeirio atynt fel meini prawf.

**7. Rheol Sefydlog 21.2(v) - bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Mae rheoliad 7(1) yn darparu ystyr "pecynwaith cartref". Nid ydym yn ystyried bod y gwaith drafftio yn darparu diffiniad clir o'r hyn y mae pecynwaith cartref yn ei olygu yn y cyd-destun hwn.

**8. Rheol Sefydlog 21.2(v) - bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Yn rheoliad 8(2), diffinnir y termau “perchennog brand” a “pecynwaith brand” a rhoddir ystyr iddynt. Mae “perchennog brand” hefyd wedi’i restru yn rheoliad 2(1) lle eglurir bod iddo'r ystyr a roddir yn rheoliad 8(2). Fodd bynnag, nid yw hyn yn cael ei wneud ar gyfer “pecynwaith brand” ac yn rheoliad 10(3) mae i “pecynwaith brand” yr ystyr a roddir yn rheoliad 8(2). Mae’n wir i ddweud mai rheoliad 10(3) yw’r unig le arall lle mae “pecynwaith brand” yn cael ei ddefnyddio yn y Rheoliadau hyn, ond a ddylai fod wedi’i gyfeirio yn rheoliad 2(1) i gynorthwyo’r darllenydd

fel y gwneir gyda'r term "perchennog brand"? Os felly, gallai'r ymadrodd "o fewn ystyr rheoliad 8(2)" wedyn fod wedi'i hepgor o reoliad 10(3).

**9. Rheol Sefydlog 21.2(v) - bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Yn rheoliad 16(2)(b)(iii) a (3)(b)(iii), mae cyfeiriadau at "wastraff pecynwaith perthnasol" yn meddu ar yr un ystyr ag ym mharagraff 23(5) o Atodlen 1. Fodd bynnag, diffinnir y term sy'n ymddangos ym mharagraff 23(5) o'r Atodlen honno fel un sydd â'r ystyr "Yn y paragraff hwn" am ei fod yn cael ei ddefnyddio ym mharagraff 23(1) o Atodlen 1. Mae hyn yn gamarweiniol i'r darllenydd gan fod i "gwastraff pecynwaith perthnasol" yr un ystyr yn rheoliad 16 yn ogystal â pharagraff 23 o Atodlen 1. Felly, a ddylai'r term hwnnw fod wedi'i ddiffinio yn rheoliad 2(1) fel un sydd â'r ystyr hwnnw yn y Rheoliadau hyn yn hytrach na'i ddiffinio ym mharagraff 23(5) o Atodlen 1? Fel arall, a ddylai'r term fod wedi'i ddiffinio yn rheoliad 2(1) fel un sydd â'r un ystyr ag yn rheoliad 16(7), y diffiniad a ychwanegwyd at reoliad 16(7) ac a hepgorwyd o baragraff 23(5) o Atodlen 1?

**10. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Yn rheoliad 17(2)(b), ymddengys fod y flwyddyn benodol ar goll yn y dyddiad "1 Ionawr" yn y ddau le y mae'n digwydd. Os ewch i Atodlen 1, paragraff 1(b)(ii), mae'n cyfeirio at reoliad 17(2)(b) a chyfnod sy'n dechrau ar 1 Ionawr **2023** ac yn dod i ben ar 30 Mehefin 2023. Felly, mae rheoliad 17(2)(b) wedi'i ddrafftio'n ddiffygiol.

**11. Rheol Sefydlog 21.2(vii) - ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft.**

Yn rheoliad 23(5), mae gwahaniaeth bach rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg. Mae'r ymadrodd Saesneg "correct**ed** information" wedi'i gyfieithu i "gwybodaeth gywir" ("correct information"). Felly, gellid dadlau nad yw'r testun Cymraeg yn cyfleu ystyr y testun Saesneg yn llawn.

**12. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Ym mharagraff 1(a) o Atodlen 1, diffinnir y term "dyddiad cychwyn" fel un sydd ag ystyr "Yn yr Atodlen hon". Ond, nid yw'n ymddangos bod y diffiniad yn cael ei ddefnyddio yn yr Atodlen, felly mae'r gwaith drafftio hwn yn ddiffygiol.

**13. Rheol Sefydlog 21.2(v) - bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Yn Atodlen 1, ym mharagraff 13(2)(e), yn y testun Cymraeg, mae’r term “conceived” wedi’i gyfieithu fel “llunio”. Mewn mannau eraill yn yr OS, mae “creu” yn hytrach na “llunio” wedi'i ddefnyddio yn y testun Cymraeg ar gyfer “conceived”. Felly, mae cyfieithiad y term yn anghyson yn y paragraff hwn o’i gymharu â gweddill yr OS ac mae’n awgrymu i’r darllenydd fod iddo ystyr gwahanol i “conceived”.

**14. Rheol Sefydlog 21.2(v) - bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Yn Atodlen 1, ym mharagraff 15, yn y geiriau agoriadol cyn is-baragraff (a), mae’r ymadrodd “pecynwaith cartref **nas llanwyd** a phecynwaith **nas llanwyd** arall” yn digwydd pan fo’n amlwg bod “nas llanwyd” yn berthnasol i becynwaith cartref a phecynwaith arall.

Yn ddiweddarach yn is-baragraff (c), mae dyletswydd i gadw cofnodion o bwysau “pecynwaith **nas llanwyd** **a** phecynwaith cartref”. Mae lluniad y frawddeg yn Saesneg, sy’n nodi “**unfilled** packaging and **of** household packaging” yn awgrymu bod “unfilled” ond yn berthnasol i “packaging” yn yr is-baragraff hwn yn hytrach nag i “packaging” a “household packaging”.

At hynny, mae cystrawen y testun Cymraeg, sef “pecynwaith **nas llanwyd** a phecynwaith cartref” yn is-baragraff (c) yn cyfyngu ar gymhwyso “nas llanwyd” i “becynwaith”. Nid yw adeiladwaith gramadegol y cyfieithiad yn caniatáu unrhyw ddefnydd posibl o “nas llanwyd” gyda “phecynwaith cartref”.

Felly, wrth ddrafftio a chyfieithu paragraff 15(c), mae angen eglurhad pellach ynghylch ai’r bwriad yw gosod dyletswydd i gadw cofnodion o “pecynwaith nas llanwyd” a “pecynwaith cartref nas llanwyd”, neu “pecynwaith nas llanwyd” a “pecynwaith cartref”.

**15. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sydd o ddiddordeb i’r Senedd**

Mae rheoliad 4 yn addasu'r Gyfarwyddeb Wastraff[1], ac yn benodol mae'r addasiad yn ymwneud â diffiniad "gwastraff" y Gyfarwyddeb Wastraff, sy'n allweddol i ddeall y Rheoliadau hyn. Rydym yn nodi bod y Gyfarwyddeb Wastraff ar gael i'r cyhoedd ar legislation.gov.uk.

Fodd bynnag, rydym yn meddwl tybed a oes ffordd fwy hygyrch o ddeddfu yn hyn o beth er mwyn galluogi darllenydd i weld y darpariaethau ar wyneb y Rheoliadau hyn.

**16. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sydd o ddiddordeb i’r Senedd**

[1] Cyfarwyddeb 2008/98/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor ar wastraff, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Gyfarwyddeb (UE) 2018/851

Mae rheoliad 6(3) yn darparu bod Atodlen 5 i Reoliadau Deunydd Pacio (Gofynion Hanfodol) 2015 yn cynnwys enghreifftiau eglurhaol o ddeunydd pacio.

Nid yw'n glir pam nad yw'r enghreifftiau hyn wedi eu cynnwys mewn atodlen i'r Rheoliadau. Byddai hyn wedi gwella hygyrchedd, ar gyfer yr hyn sydd eisoes yn rheoliadau cymhleth.

**17. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sydd o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae rheoliad 14 yn darparu ar gyfer sefyllfaoedd pan fo cynhyrchydd yn marw, yn mynd yn fethdalwr neu'n dod yn analluog (y "cynhyrchydd cyntaf"). Mae angen i berson sy'n parhau â gweithgareddau'r cynhyrchydd cyntaf drwy reoliad 14(3) hysbysu CNC o fewn 28 o ddiwrnodau i ddechrau'r gweithgareddau hynny. O ystyried bod hyn yn gais penodol, gydag amserlen gymharol fyr gan ddibynnu ar yr amgylchiadau, nid yw'n glir sut y bydd y gofyniad hwn yn cael ei bwysleisio/hysbysebu, er mwyn galluogi'r rhai sy'n gorfod hysbysu CNC i wneud hynny mewn da bryd.

**18. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sydd o ddiddordeb i'r Senedd**

Yn gyffredinol, gall fod yn anodd llywio drwy'r Rheoliadau. Yn ein barn ni, nid yw rheoliad 15 yn hygyrch iawn a gall hyn achosi trafferth i gynhyrchydd ddeall beth yw ei rwymedigaethau. Yn y bôn, mae pedwar cam yn rheoliad 15. Yn gyntaf, rhaid i gynhyrchydd nodi pa ddarpariaeth o reoliad 15 sy'n berthnasol i'w fusnes. Mae hyn yn ei gyfeirio at ddarpariaethau penodol rheoliadau 16 a 17. Yn ail, mae'r ddarpariaeth berthnasol yn rheoliad 16/17 yn ei gyfeirio at baragraffau penodol o'r Atodlen. Yn drydydd, mae'r paragraffau hynny o'r Atodlen yn ei gyfeirio at baragraffau eraill ar wahân i'r Atodlen. Yn olaf, dim ond wedyn y gall y cynhyrchydd weld y wybodaeth y mae'n ofynnol iddo ei chasglu/hadrodd, er y gall fod yn rhaid iddo fynd yn ôl ac ymlaen rhwng paragraffau ar wahân i ganfod y rhestr gyflawn.

Byddai'n ymddangos yn fwy priodol pe bai'r Atodlen yn symlach fel ei bod yn cynnwys rhestr ar wahân ar gyfer pob math o gynhyrchydd, sy'n nodi'n glir yr holl wybodaeth y mae ar y cynhyrchydd hwnnw ei hangen.

Nid ydym yn credu mai dyma'r modd mwyaf hygyrch o ddrafftio'r rheoliadau.

**19. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sydd o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae rheoliad 19(2)(a) yn darparu bod paragraff 19(1) yn gymwys os yw cynhyrchydd yn darparu gwybodaeth y mae gweithredwr cynllun yn gwneud cais amdani o fewn "cyfnod rhesymol i gael cais o'r fath". Fodd bynnag, nid oes manylion ynghylch beth y gallai cyfnod rhesymol o'r fath fod.

**20. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sydd o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae rheoliad 22 yn ei gwneud yn ofynnol i CNC gyhoeddi rhestrau o eitemau a gesglir i'w hailgylchu. Fodd bynnag, nid oes gofyniad penodol ar wyneb y Rheoliadau i ddiweddaru'r rhestrau hyn. Felly, nid yw'n glir os mai'r bwriad yw i'r rhestrau yn rheoliad 22 gael eu diweddaru.

**21. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sydd o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae rheoliad 25(1) yn galluogi CNC i gyflenwi ffurflen i berson cymeradwy wneud cais i ddirprwyo ei swyddogaethau i berson arall o dan reoliad 24(3).

Mae rheoliad 25(2) yn darparu ar gyfer cyfnod o 28 o ddiwrnodau pan gaiff CNC ganiatáu neu wrthod y cais am gymeradwyaeth.

Rydym yn meddwl tybed a ystyriwyd darpariaeth sy'n rhoi caniatâd tybiedig, mewn amgylchiadau pan nad yw CNC yn caniatáu cais nac yn ei wrthod o fewn yr amserlen benodedig, ac a fyddai'n cynorthwyo ymgeiswyr.

**22. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sydd o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae'r Memorandwm Esboniadol ym mharagraff 27 yn esbonio bod y dull o gynnwys eithriad ar gyfer busnesau llai i leihau'r effaith arnynt:

> *Er mwyn lleihau effaith y gofynion ar fusnesau bach (sy'n cyflogi hyd at 50 o bobl), y dull a ddefnyddir yw cynnwys trothwy o fewn y rheoliadau i eithrio cynhyrchwyr nad ydynt yn trin mwy na 25 tunnell o becynwaith y flwyddyn ac sydd â throsiant blynyddol o £1 miliwn a mwy. Bydd cynhyrchwyr nad ydynt yn trin mwy na 50 tunnell o becynwaith y flwyddyn ac sydd â throsiant blynyddol o £2 filiwn a mwy yn cael eu heithrio o'r rhwymedigaethau adrodd ond bydd dal angen iddynt gasglu a chadw data.*

Fodd bynnag, nid oes esboniad clir ynghylch y gwerth bod busnesau llai yn casglu ac yn cadw'r data hyn, os nad ydynt i'w hadrodd i CNC. Gofynnir am ymateb gan Lywodraeth Cymru i amlinellu pa fudd y bydd casglu a chadw'r data hyn yn ei ddarparu.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 10

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon